**Dyddiad:** **26 Chwefror 2003**
**Amser:** **9:00 – 12:30**
**Lleoliad:** **Ystafell Bwyllgora 1**

## ADRODDIAD Y GWEINIDOG DROS DDIWYLLIANT, CHWARAEON A'R IAITH GYMRAEG

### MENTER CWM GWENDRAETH

1. Ar 6 Chwefror, mynychais Noson Dathlu'r Gymraeg trwy Chwaraeon, a drefnwyd gan Fenter Cwm Gwendraeth ym Mhontyberem, Llanelli. Roedd yn bleser llongyfarch Dr Wayne Griffiths, Cadeirydd Menter Cwm Gwendraeth, ar ei gael ei wneud yn Rheolwr tîm llwyddiannus Cymru yng Ngemau'r Gymanwlad y llynedd ym Manceinion. Hefyd, roeddwn wrth fy modd i allu cyflwyno gwobrau i bobl ifanc o Gwm Gwendraeth sydd wedi cynrychioli Cymru mewn amryw o gampau yn ystod y flwyddyn a aeth heibio. Dangosodd y noson fod pentrefi Cwm Gwendraeth yn parhau i gynhyrchu pencampwyr sy'n helpu i hyrwyddo'r Gymraeg drwy chwaraeon.

### SIARTER EWROP AR GYFER IEITHOEDD RHANBARTHOL A LLEIAFRIFOL

2. Ar 23 Ionawr, cyfarfyddais ag aelodau o Bwyllgor Arbenigwyr Cyngor Ewrop ar Siarter Ewrop ar gyfer Ieithoedd Rhanbarthol a Lleiafrifol. Roedd y Pwyllgor yn ymweld â Chaerdydd fel rhan o daith trwy Brydain i werthuso'r modd y mae Prydain yn rhoi'r Siarter ar waith. Roeddwn yn falch o allu tynnu sylw at y modd y mae Llywodraeth y Cynulliad yn gweithredu ei ymrwymiadau at y Gymraeg o fewn y cytundeb. Roeddwn hefyd wrth fy modd i weld y diddordeb a fynegwyd yn y ddogfen *Iaith Pawb*.

### CYFRIFIAD 2001

3. Ar 13 Chwefror, cyhoeddwyd set gyntaf ffigurau Cyfrifiad 2001. Roeddwn yn eithriadol o falch o weld y dirywiad hir yn nifer y siaradwyr yn cael ei droi ar ei ben, gyda chynnydd yn nifer gwirioneddol y siaradwyr o 508,000 ym 1991 i

tua 580,000 yng nghyfrifiad 2001. Mae 21% o boblogaeth Cymru bellach yn siarad Cymraeg, o'i gymharu ag 19% ym 1991.

4. Cawn ragor o fanylion pan bydd y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn rhyddhau mwy o ffigurau'r Cyfrifiad, a gaiff eu cyhoeddi o fis Mawrth tan tua mis Medi eleni.

**LANSIO AMGUEDDFA GENEDLAETHOL Y GLANNAU, ABERTAWE**

5. Ar 10 Chwefror, roeddwn yn bresennol wrth i'r Prif Weinidog lansio Amgueddfa Genedlaethol y Glannau yn Abertawe yn swyddogol. Mae Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru wedi ffurfio partneriaeth unigryw gyda Chyngor Dinas a Sir Abertawe i fwrw ati â'r prosiect. Amcan y lansiad oedd perswadio'r rheini oedd yno o'r sector preifat o bwysigrwydd y prosiect, ac i'w hysbrydoli i fod yn lysgenhadon dros yr amgueddfa. Yn y modd hwn, rydym yn gobeithio sicrhau y gellir cwrdd â'r targed o £4.4 miliwn oddi wrth y sector preifat.

6. Yn ogystal â chymorth Llywodraeth Cynulliad Cymru, bydd yr Aelodau yn cofio bod y prosiect hwn yn cael ei ariannu gan y grant mwyaf erioed i Gymru o Gronfa Dreftadaeth y Loteri. Mae'r WDA, Bwrdd Croeso Cymru a'r Undeb Ewropeaidd hefyd yn cyfrannu at y gost.

7. Rwy'n siwr y bydd y prosiect cyffrous hwn yn trawsffurfio glannau Abertawe. Hefyd, bydd y miloedd ar filoedd o ymwelwyr a ddaw i'r Amgueddfa yn rhoi hwb i economi Abertawe, a Gorllewin Cymru yn gyffredinol.

**CYMAL: AMGUEDDFEYDD, ARCHIFAU A LLYFRGELLOEDD CYMRU**

8. Yn fy Natganiad yn y Cyfarfod Llawn ar 29 Ionawr, cyhoeddais mai Aberystwyth fydd cartref CyMAL, yr uned newydd sy'n cael ei sefydlu o fewn Llywodraeth Cynulliad Cymru ar 1 Ebrill 2004 er mwyn datblygu a gweithredu polisïau ar gyfer amgueddfeydd, llyfrgelloedd ac archifau lleol.

9. Gwnes y penderfyniad hwn oherwydd bod nifer o sefydliadau sy'n adlewyrchu maes CyMAL wedi ymgartrefu yn Aberystwyth. Mae'r rhain yn

cynnwys Llyfrgell Genedlaethol Cymru; yr Adran Astudiaethau Gwybodaeth a Llyfrgellyddiaeth ym Mhrifysgol Cymru, Aberystwyth, ynghyd â staff Archifo a Rheoli Cofnodion y Brifysgol yno; Cyngor Llyfrau Cymru; a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru.  Bydd CyMAL yn ymgartrefu'n naturiol ymysg y rhwydwaith hwn o sefydliadau, a bydd ganddo hyd at 25 o staff, sef arbenigwyr o'r sector ei hun ar y cyfan.  Yn ogystal â hyn, sefydlir Cyngor Ymgynghorol, a gaiff ei gadeirio gan y Gweinidog Diwylliant, er mwyn galluogi'r sector i gyfrannu at y broses o ddatblygu polisi.

10.  Rwyf yn edrych ymlaen at gydweithio mewn partneriaeth gyda sawl sefydliad yn y sector ledled Cymru wrth inni ddatblygu CyMAL, ac wrth inni wella gwasanaethau ar gyfer y rhai sy'n eu defnyddio ar hyn o bryd ac fydd yn eu defnyddio yn y dyfodol.  Hoffwn hefyd ddiolch i Gyngor Amgueddfeydd Cymru a'r Cyngor Gwasanaethau Llyfrgell a Gwybodaeth (Cymru) am gydweithio gyda ni i sicrhau bod y broses o drosglwyddo yn un esmwyth ac effeithiol.

**Y STRATEGAETH DDIGWYDDIADAU GENEDLAETHOL**

11.  Yn ddiweddar, cwblhaodd Stevens & Associates, yr ymgynghorwyr a benodwyd i'n cynorthwyo i ddatblygu'r strategaeth, ymgynghoriad cynhwysfawr.  Derbyniwyd ymatebion gan ystod eang o sefydliadau, gan gynnwys y prif gyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad ym meysydd diwylliant a'r economi, awdurodau lleol, cyrff llywodraethu chwaraeon, cwmnïau sy'n rheoli digwyddiadau a'r rheini sy'n rhedeg lleoliadau.

12.  Cam nesaf Stevens & Associates fydd cynnal cyfres o weithdai ymarferol ar gyfer y bobl a'r sefydliadau allweddol, er mwyn trafod y materion sy'n codi ac i brofi meini prawf gwerthuso.  Cynhelir y gweithdai hyn ar 25 Chwefror. Yn dilyn hynny, bydd yr ymgynghorwyr yn llunio adroddiad drafft i'w ystyried gan Grŵp y Strategaeth Ddigwyddiadau.

**Y LOTERI GENEDLAETHOL**

13.  Ar 27 Chwefror, byddaf yn cyfarfod â Tessa Jowell a Gweinidogion o'r Alban a Gogledd Iwerddon i drafod materion sy'n codi o'r Adolygiad a

gynhaliwyd y llynedd o Gyllid y Loteri.  Rwyf eisiau defnyddio'r cyfarfod hwn er mwyn pwyso ar yr Ysgrifennydd Gwladol i ddatganoli rhagor o'i phwerau o ran dosbarthu arian y Loteri yng Nghymru. Rwyf hefyd eisiau dadlau o blaid cynyddu'r gyfran a roddir i gronfeydd y Loteri ar gyfer y celfyddydau a chwaraeon yng Nghymru.  Byddaf yn rhoi adroddiad i'r Pwyllgor ar ganlyniad y cyfarfod hwn yn fy adroddiad misol nesaf.

**Y MESUR TRWYDDEDU**

14.  Ar hyn o bryd, mae Mesur Trwyddedu Llywodraeth y DU ar ei daith trwy Dŷ'r Arglwyddi.  Nid yw eto wedi bod trwy Dŷ'r Cyffredin. Yr hyn sydd wedi dwyn y penawdau yw'r cynnig i gyflwyno oriau trwyddedu hyblyg, a allai olygu y bydd tafarnau, bariau a bwytai ar agor am hyd at 24 awr, saith diwrnod yr wythnos.  Ond mae'r Mesur hefyd yn cynnig:

- un cynllun integredig ar gyfer trwyddedu safleoedd sy'n gwerthu alcohol, yn darparu difyrrwch cyhoeddus neu'n darparu lluniaeth yn hwyr yn y nos;
- trosglwyddo'r cyfrifoldeb am gyhoeddi trwyddedau oddi wrth yr ynadon i'r awdurdodau lleol (oherwydd eu bod yn atebol trwy etholiad), ac ystyried barn trigolion lleol wrth benderfynu ar geisiadau;
- cefnogi'r trwyddedau gydag ystod hyblyg o gosbau (gan gynnwys gostyngiad dros-dro yn nifer yr oriau agor), yn lle'r system bresennol lle ceir cosb o golli'r drwydded, neu ddim byd o gwbl;
- diddymu'r bleidlais a gynhelir bob saith mlynedd yng Nghymru ar agor ar y Sul.

15.  Nid yw trwyddedu yn fater sydd wedi'i ddatganoli, a chyfrifoldeb yr Adran Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) ydyw.  Nid ymgynghorodd yr Adran â mi na'm swyddogion ynghylch y darpariaethau trwyddedu. Ni fyddai'r Mesur yn caniatáu i Lywodraeth y Cynulliad addasu'r darpariaethau hynny wrth  eu rhoi ar waith yng Nghymru.

16.  Ar 30 Ionawr, ysgrifennais at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn mynegi'r pryderon a leisiwyd i mi. Eglurais yn y

llythyr fy mod innau'n rhannu'r pryderon hynny. Yn ogystal, mynegais fy siom nad ymgynghorwyd â Llywodraeth y Cynulliad ynghylch y darpariaethau trwyddedu.  Rwy'n anfon copïau o'm llythyr ynghyd â'r Atodiad a amgaewyd gydag ef, sy'n manylu ar fy mhryderon, at aelodau'r Pwyllgor.

**CYFARFOD Â CHYMRU'N CREU**

17.  Ar 13 Chwefror, cadeiriais seithfed cyfarfod Cymru'n Creu. Mae'r gwaith o gydlynu elfennau cynllunio a darparu gweithgareddau ar draws pob corff diwylliannol wedi gwella'n fawr o ganlyniad i Cymru'n Creu, yn fy marn i.  Mae hefyd yn chwarae rôl pwysig yn monitro ac adrodd ar gynnydd *Creative Future - Cymru Greadigol.*

18.  Y prif eitem ar agenda'r cyfarfod oedd adolygu tabl a oedd yn dangos y cynnydd a gafwyd yn erbyn targedau'r Cynlluniau Gweithredu yn *Creative Future: Cymru Greadigol*. Er mai dim ond blwyddyn a aeth heibio, rwyf yn falch o adrodd ein bod eisoes wedi cymryd camau breision o ran ein hamcanion yn y tymor hir a'r tymor byr.

19.  Wrth lansio'r strategaeth fis Chwefror diwethaf, pwysleisiais ein bod yn cychwyn ar raglen ddeng-mlynedd uchelgeisiol a fyddai'n torri tir newydd, er mwyn rhoi materion diwylliannol yn uwch ar yr agenda yng Nghymru. Roeddwn yn rhagweld mai blwyddyn gyntaf *Cymru Greadigol* fyddai'n gosod seiliau cadarn ar gyfer y dyfodol. Mae swm sylweddol o arian newydd wedi'i ddarparu, a mwy o sefydliadau yn cael cymorth. Datblygwyd strategaethau newydd a nodwyd sawl sialens newydd.

20.  Byddaf yn adrodd mewn mwy o fanylder ar y cynnydd a gafwyd wrth weithredu'r Strategaeth Ddiwylliant yn y Cyfarfod Llawn ar 4 Mawrth.

**LLYTHYRAU CYLCH GORCHWYL**

21.  Rwy'n falch o adrodd bod y llythyrau cylch gorchwyl ar gyfer 2003-04 wedi'u cyhoeddi i bob corff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad ym maes diwylliant, a chyrff diwylliannol eraill sy'n derbyn cyfran helaeth o'u cyllid gan

Lywodraeth Cynulliad Cymru.  Mae'r llythyrau hyn yn nodi fy mlaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod, a negeseuon allweddol y Cabinet ar gyfer y cyrff hynny.   Bydd y Pwyllgor yn derbyn copïau yn y modd arferol, a chyhoeddir y llythyron cylch gorchwyl ar y Fewnrwyd a'r Rhyngrwyd.

**CYNGOR CELFYDDYDAU CYMRU: PENODI CADEIRYDD**

22.  Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth y Cynulliad yn cynnal proses i benodi Cadeirydd Cyngor Celfyddydau Cymru. Bydd y swydd yn cychwyn ar 1 Ebrill 2003.  Hysbysebwyd y swydd yn y wasg ym mis Rhagfyr 2002, a'r dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau oedd 16 Ionawr.  Byddwn yn cynnal cyfweliadau rhwng 21 a 25 Chwefror.  Rwy'n disgwyl cyhoeddi'r canlyniad cyn diwedd y flwyddyn ariannol.

**YMWELIAD Â CHYNGOR CELFYDDYDAU CYMRU**

23.  Ar 12 Chwefror, ymwelais â Swyddfa Cyngor y Celfyddydau ar gyfer y Gorllewin a'r Canolbarth yng Nghaerfyrddin.  Fel fy ymweliad â'r brif swyddfa yn Museum Place, Caerdydd y mis diwethaf, diben fy ymweliad oedd siarad â'r staff a gwrando ar eu barn ynghylch gweithio yng Nghyngor y Celfyddydau, gan bod y sefydliad bellach wedi'i ailstrwythuro.  Roedd yr ymweliad yn werthfawr iawn, a chefais fy synnu gan natur amrywiol a swmp y gwaith y maent yn ei gyflawni yno.  Roedd yn gipolwg defnyddiol ar rôl y swyddogion datblygu'r celfyddydau sy'n gweithio gyda chynlluniau prosiect, cwsmeriaid refeniw a chynlluniau datblygu'r celfyddydau.  Hefyd, cefais gyflwyniad ar ddatblygiad y celfyddydau a'r crefftau gweledol o dan y strwythur newydd.

**CRONFA CELFYDDYDAU I'R IFANC**

24.  Rwyf wedi gofyn i Gyngor y Celfyddydau sefydlu Cronfa Celfyddydau i'r Ifanc, a fydd yn rhaglen i gyllido gweithgareddau celfyddydol i blant a phobl ifanc yng Nghymru.  Enw'r Gronfa, sy'n werth dros £1.7 miliwn y flwyddyn, fydd "Cefnogi Creadigrwydd Ifanc", a chaiff ei lansio yn hwyrach heddiw yn y Neuadd.  Gobeithio y gallwch chi i gyd fod yn bresennol yno.  Bydd y grŵp jazz *Ensemble* yn chwarae yn ystod y lansiad, a bydd y grŵp dawns *Dynion* hefyd yn perfformio. Mae Cyngor y Celfyddydau bob amser wedi bod yn

gefnogol i gelfyddydau'r ifanc. Serch hynny, mae'r Gronfa hon yn atgyfnerthu'r ymrwymiad hwn, ac yn gwireddu un o brif amcanion *Creative Future: Cymru Greadigol.*

**PRIFDDINAS DIWYLLIANT**

25. Mae'r Gweinidog Cyllid wedi cytuno i ddarparu £199,000 yn rhagor yn ystod 2002-03 i gefnogi'r tîm sy'n datblygu cais Caerdydd i fod yn Brifddinas Diwylliant Ewrop yn 2008. Mae'r cyllid hwn yn cyfateb i gyfraniad tebyg gan Gyngor Sir Caerdydd, a chaiff ei ddefnyddio i ddatblygu mwy ar y cysylltiadau o fewn Cymru, Prydain ac Ewrop. Caiff ei ddefnyddio hefyd i fwrw ati â phrosiectau diwylliannol eraill.

26. Rwy'n cael ar ddeall y gwneir cyhoeddiad ynghylch y ddinas a enwebir gan Brydain yn ystod mis Mehefin.

**CYD-DRAFODAETHAU GWEINIDOGION EWROP SY'N GYFRIFOL AM FATERION DIWYLLIANNOL - STRASBOURG 17 CHWEFROR**

27. Roeddwn yn falch o gynrychioli'r DU yn y cyfarfod hwn â Gweinidogion Ewrop yn Strasbourg. Pwnc y drafodaeth oedd rôl a chyfrifoldebau newydd Gweinidogion dros Ddiwylliant yn cychwyn deialog rhwng diwylliannau, gan roi'r parch dyledus i amrywiaeth diwylliannol. ”

28. Mae hwn yn bwnc pwysig, sy'n uniongyrchol berthnasol i Gymru, ac y mae'n adeiladu ar y trafodaethau a'r cysylltiadau rwyf wedi eu sefydlu eisoes gyda'r Undeb Ewropeaidd a chyda Chynulliad Rhanbarthau Ewrop. Byddaf yn rhoi adroddiad llafar pellach i'r Pwyllgor ar y 26$^{ain}$.

**ASSITEJ**

29. ASSITEJ yw'r Gymdeithas Theatr Ryngwladol i Blant a Phobl Ifanc. Ym mis Mawrth 2003, bydd Cymru yn derbyn ymweliad gan Bwyllgor Gweithredol ASSITEJ i ŵyl Agor Drysau yn Aberystwyth. Mae hyn yn rhan o strategaeth i ddenu Cynghres ASSITEJ i Gymru yn 2008. Cynhelir y Gynghres bob tair mlynedd. Mae hyn yn adeiladu ar yr ymweliad llwyddiannus a wnaed i

Gynghres 2002 yn Seoul, lle gwnaed cais gan Gymru i gynnal y Gynghres yma fel rhan o ŵyl theatr Agor Drysau i gynulleidfaoedd ifanc.

30. ASSITEJ yw'r prif rwydwaith rhyngwladol sy'n cynorthwyo'r gwaith o ddatblygu theatr ar gyfer pobl ifanc. Bob tair mlynedd, mae'n cynnal Cynghres a Gŵyl sy'n denu rhwng 800 a 1000 o bobl i gymryd rhan neu i wylio.

31. Agor Drysau yw gŵyl theatr ryngwladol Cymru ar gyfer cynulleidfaoedd ifanc. Cynhelir y digwyddiad yn Aberystwyth gan fwyaf, a chaiff ei redeg gan Arad Goch, un o'r wyth cwmni yn rhwydwaith y cwmnïau theatr i'r ifanc yng Nghymru. Cynhelir yr ŵyl nesaf o 25 hyd 29 Mawrth 2003. Mae Jeremy Turner, Cyfarwyddwr Artistig Cwmni Arad Goch, yn aelod o Bwyllgor Gweithredol ASSITEJ.

32. Ym mis Gorffennaf 2002, aeth Peter Tyndall, Prif Weithredwr Cyngor Celfyddydau Cymru, ynghyd â Jeremy Turner, i Gynghres ASSITEJ yn Seoul er mwyn cyflwyno cais Cymru i lywyddu Cynghres 2005. Serch hynny, penderfynodd y Gynghres y dylid cynnal digwyddiad 2005 ym Montréal, ond cafwyd awgrymiadau cryf y gallai cais gan Gymru i gynnal y digwyddiad yn 2008 fod yn llwyddiannus.

33. Rwyf wrth fy modd i adrodd bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn darparu grant gwerth £11,000 i ddod â Phwyllgor Gweithredol ASSITEJ i Gymru ym mis Mawrth.

**Jenny Randerson AC**
**Y Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg**

Enw cyswllt: Paul Massey, Is-adran y Celfyddydau, y Loteri a Chwaraeon, ffôn 5821

Atodiad

**YMWELIADAU'R GWEINIDOG O 22 IONAWR HYD 26 CHWEFROR 2003**

<u>Ionawr</u>

| | |
|---|---|
| Sesiwn Meicroffon Agored | Coleg Penfro<br>Hwlffordd |
| Mynychu swper Addysg Uwch a Dyfodol Chwaraeon | UWIC Caerdydd |
| Araith + mynychu dangosiad cyntaf y ffilm wedi'i hanimeiddio, 'The Wild Thornberrys'. | UCG Casnewydd |
| Lansio arddangosfa o gelf o Sbaen a Phrydain | Bute Street, Caerdydd |

<u>Chwefror</u>

| | |
|---|---|
| Mynychu gêm derfynol y Gynghrair Geltaidd | Stadiwm y Mileniwm, Caerdydd |
| Mynychu datganiad Ymddiriedolaeth Coffa Russell Sheppard | Coleg Cerdd a Drama Brenhinol Cymru, Caerdydd |
| Mynychu ac annerch swper gyda Menter Cwm Gwendraeth | Neuadd Pontyberem, Cwm Gwendraeth |
| Lansio Out There Productions | YMCA Port Talbot |
| Mynychu tlws Lansing Linde Severnide, Cymdeithas Athletau Cymru | UWIC Caerdydd |
| Mynychu derbyniad i lansio Amgueddfa Genedlaethol y Glannau | Abertawe |
| Ymweld â swyddfa CCC yng Nghaerfyrddin | Caerfyrddin |
| Mynychu cyngerdd gan Gerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC er budd NCH Cymru | Neuadd Dewi Sant, Caerdydd |
| Cyd-drafodaeth Gweinidogol ar Ddiwylliant | Strasbourg |

| | |
|---|---|
| Mynychu derbyniad ar gyfer enillwyr gwobrau partneriaethau newydd | Abertawe |
| Mynychu gêm Cymru v Lloegr | Stadiwm y Mileniwm, Caerdydd |